

# Y Gymraeg yng Nghanol Caerdydd

Taith yng nghyffiniau Porth y Gorllewin

E. Wyn James

## Rhagarweiniad

Gwahoddiad sydd yma i chi fynd ar daith ar droed (yn llythrennol neu yn eich dychymyg!) o gwmpas rhan o ganol Caerdydd.

Erbyn heddiw mae dros 350,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd, ac mae'r ddinas wedi ymestyn i gynnwys llawer o'r pentrefi a amgylchynai'r hen dref wreiddiol. Ond hyd at ddechrau'r 19eg ganrif, tref fechan oedd Caerdydd, heb fod ynddi fawr mwy na thua 2,000 o bobl ar unrhyw adeg yn ei hanes hir.

Tref ydoedd a ddatblygodd i'r de o Gastell Caerdydd yn ystod yr Oesoedd Canol, ac am lawer o'i hanes yr oedd waliau amddiffynnol yn ei hamgylchynu. Dim ond ychydig o'ion o'r waliau hynny sy'n aros heddiw, ond bwriad y daith hon yw mynd â ni o gwmpas rhan fwyaf gorllewinol yr hen dref gaerog wreiddiol a'i chyffiniau agos, gan ganolbwyntio'n arbennig ar rai mannau arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg, ddoe a heddiw.

Yn briodol iawn, bydd y daith yn dechrau ac yn gorffen o flaen Castell Caerdydd, oherwydd y castell yw'r rheswm dros fodolaeth Caerdydd. Mae'r castell presennol ar safle caer a godwyd gan y Rhufeiniaid tua'r flwyddyn 55 Oed Crist ar fan strategol ar lan afon Taf, ar y ffordd rhwng Caerllion a Chaerfyrddin – ar y ffordd honno, gyda llaw, yr aeth Geraint fab Erbin yn un o chwedlau'r Mabinogion o gyffiniau llys Arthur yng Nghaerllion i Gaerdydd a chwarae twrnameint yno.

Y gaer Rufeinig honno a roddodd ei henw i Gaerdydd, oherwydd o 'Caerdyf' y daw'r enwau cyfoes 'Caerdydd' a 'Cardiff' ill dau. Ffurf ar 'Taf' yw'r 'Tyf' yn 'Caerdyf' – ffurf enidol (h.y. ffurf sy'n dangos perthynas) ar enw'r afon – ac mae hynny'n arwydd fod gwreiddiau'r enw'n hen iawn, yn mynd yn ôl i'r cyfnod cyn i'r Gymraeg ddatblygu o'i mamiaith, y Frythoneg. Fel arall, 'Caerdaf' fyddai enw'r dref (yn debyg i 'Llandaf', a ddaeth i fod wedi

i'r Gymraeg ddatblygu o'r Frythoneg; 'Llandyf' fyddai'r enw fel arall).

Mae bodolaeth Castell Caerdydd yn pwysleisio fod 'goresgyn' ac 'amddiffyn' yn eiriau pwysig yn hanes y ddinas erioed. Cododd y goresgynwyr Rhufeinig bedair caer yn eu tro ar safle'r castell presennol rhwng tua o.c. 55 a 280, ac mae rhai o olion walydd y Rhufeiniaid i'w gweld o hyd ar waelod rhai o walydd y castell heddiw. Gadawodd y Rhufeiniaid Gaerdydd tua'r flwyddyn 380, ond yna yn yr 11fed ganrif, daeth goresgynwyr eraill, y Normaniaid, a chodi gorthwr (*keep*) ar fryncyn gwneud yng nghanol yr hen gaer Rufeinig.

Mae'r gorthwr hwnnw – Tŵr Iestyn – yn ganolbwynt trawiadol i'r castell hyd heddiw, ond mynd yn adfeilion cynyddol fu hanes y castell gydag amser, nes ei ailgodi yn ei ffurf bresennol, anhygoel o afradlon, yn y 19eg ganrif gan deulu Bute, y tîrfeiddianwyr o'r Alban a fu'n fwy cyfrifol na neb am greu'r Gaerdydd fodern. Roedd hynny yng nghyfnod ei thwf mawr yn Oes Victoria yn sgil y datblygiadau diwydiannol aruthrol yn y cymoedd tua'r gogledd; ac yr oedd twf Caerdydd yn y cyfnod hwnnw'n gwbl syrfdanol: cynyddodd y boblogaeth o tua 1,800 yn 1800, i tua 18,000 yn 1850, i tua 180,000 erbyn i'r dref ennill statws dinas yn 1905.

Yn 1987 cyhoeddodd Gwasg y Dref Wen, y tŷ cyhoeddi arloesol a hynod gynhyrchiol hwnnw yn yr Eglwys Newydd, gyfrol o'r enw *Bro a Dinas*, detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith am Gaerdydd a Bro Morgannwg dan olygyddiaeth W. J. Jones, yr awdur diwyd a fu am flynyddoedd yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Coleg Addysg Caerdydd yng Nghyncoed. Fel y pwyleisia'r gerdd fach hyfryd, ddienw, 'Holi Afon Taf', yn y gyfrol honno, fe glywodd yr afon lawer o ieithoedd ar hyd ei glannau dros y canrifoedd: Lladin, Ffrangeg Normanaidd, Saesneg, a lluo o ieithoedd o bob rhan o'r byd yn dilyn ffyniant ardal y dociau; ond meddai'r afon yn y gerdd: 'Ond tra fwyf byw, bydd Cymraeg, gobeithio, yn bêr yn fy nghlyw.'



Map John Speed o Gaerdydd 1610  
<https://www.casgliadywerin.cymru/items/29006>

## Y Daith

Awn o'r castell i gyfeiriad yr afon, gan fynd heibio i'r Wal Anifeiliaid enwog. Yna, trown i'r dde trwy borth a godwyd fwy neu lai ar safle hen borth orllewinol y dref – Porth Meisgyn – i mewn i Barc Bute, 'calon werdd y ddinas'.

Wrth inni ddilyn y llwybr tua'r gogledd, gwelwn ar y dde y cylch cerrig a godwyd i gynnal seremonïau Gorsedd y Beirdd pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 1978 (er mai ym Mhentwyn yr oedd maes yr Eisteddfod honno).

Cyn hir, down at fforch yn y llwybr ger olion brodordy o eiddo Urdd y Dominiciaid – y Brodyr Duon – a sylfaenwyd tua 1250. Fe'i llosgwyd gan Owain Glyndŵr adeg ei ymosodiad ar Gaerdydd yn 1404 yn ystod ei ryfel annibyniaeth.

Dilynwn y llwybr i'r chwith yn y fan honno nes dod at Bont y Mileniwn, ger Caffi'r Tŷ Haf, pont droed a godwyd yn 1999 ac sy'n arwain dros afon Taf i Gerddi Sophia.

\*\*\*\*\*

Fe grëwyd Gerddi Sophia ar dir hen fferm Plasturton yn yr 1850au a'u henwi ar ôl gweddw Ail Ardalydd Bute. Dyma'r parc cyhoeddus cyntaf yng Nghymru, ac mae iddo le pwysig ym myd y campau: dyma, er enghraifft, gartref cyntaf Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd – 'yr Adar Gleision' – a chartref presennol Clwb Criced Morgannwg.

Yng Ngerddi Sophia y cynhaliwyd Eisteddfodau Cenedlaethol 1938 ac 1960 ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1965 – enillydd Cadair yr Urdd yn 1965 oedd Gerallt Lloyd Owen ac enillydd y Goron oedd Robin Gwyndaf o'r Amgueddfa Werin. Un o'r pethau mwyaf nodedig am Eisteddfod 1938 yw mai mewn cyfarfod yn Neuadd y Ddinas yn ystod yr eisteddfod honno y dechreuwyd o ddifrif ar yr ymgyrch i ennill statws cyfreithiol i'r iaith Gymraeg. Yn yr un eisteddfod hefyd cytunwyd i fwrw ymlaen â'r cynllun i baratoi un o'n cyfeirlyfrau

pwysicaf, *Y Bywgraffiadur* 1904–05, ac yn ei ddyddiadur ym *Cymreig*. Ffrwyth llenyddol mwyaf arhosol Eisteddfod 1938 oedd nofel Elena Puw Morgan, *Y Graith*, a enillodd iddi'r Fedal Ryddiaith; a nofel gan ferch a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod 1960 hefyd, sef *Fy Hen Lyfr Cownt*, nofel hanesyddol gan Rhiannon Davies Jones am yr emynyddes Ann Griffiths.

Cafodd Eisteddfod 1938 ymwelydd a fyddai'n dod yn un o enwogion mawr y byd maes o law, sef John F. Kennedy, a etholwyd yn Arlywydd yr Unol Daleithiau yn 1960. Daeth i Gaerdydd yn 1938 yng nghwmni ei dad, Joseph, a oedd yn Llysgennad America yn Llundain ar y pryd. Anerchodd Joseph Kennedy gyngerdd ar nos Lun yr Eisteddfod, a chanmol y côr plant i'r entychion. '*It is much better teaching [our children] to sing than to shoulder a rifle*', meddai yn ei araith: sylw eironig, a dweud y lleiaf, o gofio'r hyn a ddigwyddodd i'w fab.

\*\*\*\*\*

Wrth ddod oddi ar Bont y Mileniwm i mewn i Erddi Sophia, trown i'r dde a dilyn llwybr Taith Taf am ychydig tua'r gogledd ar hyd glan yr afon. Petaech chi yno yn nechrau'r ugeinfed ganrif, mae'n ddigon posibl y byddech wedi gweld yr efenglydd a'r gweinidog gyda Symudiad Ymosodol y Methodistiaid Calфинаidd, Seth Joshua (1858–1925), yn cerdded ar lan yr afon mewn myfyrdod dwfn, oherwydd byddai'n aml yn taro draw i Erddi Sophia o'i gartref yn 28 Talbot Street gerllaw, i weddio. Daeth yn arweinydd amlwg yn Niwygiad

Golygfa eithaf gwahanol a fyddai wedi eich wynebu yno tua 1863, oherwydd mae baled Gymraeg a argraffwyd yr adeg honno yn adrodd fel y bu 'i helgwn gwych Pentyrch' ymlid cadno coch i lawr y cwm, heibio i Radur a Thyllgoed a Llandaf. Tybiodd rhai o'r helwyr fod y cadno wedi croesi'r afon, a 'rhedasant drwy Gaerdydd [gan] gynhyrfu'r dre'; ond yng Ngerddi Sophia yr oedd y cadno druan, yn 'ymguddio'n gyfrwys rhag ei ddal mewn llwyn o *laurel*', ac yno y lladdwyd ef. Ac mae'r gân yn gorffen trwy ganu clodydd yr helwyr a'u cŵn a'u meirch: 'Ni ddichon clawdd na pherth,/ Afonydd, llynnoedd, creigiau serth/ Eu lluddias ar eu taith ...

\*\*\*\*\*

Yn lle parhau ar hyd Taith Taf i'r gogledd, i gyfeiriad safle maes Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008 ar Gaeau Pontcanna, cymerwn y troad cyntaf i'r chwith tuag at Glos Sophia a heibio i Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ar y dde.

Wrth anelu am Glos Sophia, fe awn heibio i dafarn 'Bragdy a Chegin' ar y dde ychydig cyn

Y dorf yn Nhafwyl ar lawnt y castell





cyrraedd y clos. Porthdy ar gyfer y fynedfa i'r gerddi oedd yr adeilad yn wreiddiol, a'r enw ar y dafarn ar un adeg oedd 'The Poacher's Lodge', ond rhwng 2002 a 2018 ei henw oedd 'Y Mochyn Du', ac fe ddaeth y dafarn dan yr enw hwnnw yn ganolfan i weithgareddau Cymraeg o bob math.

Yno, er enghraifft, y cynhaliwyd Tafwyl – yr ŵyl boblogaidd a drefnir yn flynyddol gan Fenter Caerdydd i ddathlu'r diwylliant Cymraeg – o'r dechrau yn 2006 hyd nes iddi symud i Gastell Caerdydd yn 2012. Rhyw 1,000 a fynychodd yr ŵyl gyntaf, ond erbyn hyn mae Ffair Tafwyl yn denu bron 40,000 dros ddeuddydd bob haf ac wedi datblygu'n fath o 'eisteddfod genedlaethol fach' ychwanegol yn y calendr Cymraeg.

Yn y Mochyn Du, hefyd, y ffurfiwyd côr o bobl hŷn dan arweinyddiaeth y ddiweddar Sioned James (1974–2016), arweinydd Côrddydd, er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2008; ac o dan yr enw 'Côr y Mochyn Du' (ac yna 'Côr Hen Nodiant' o 2015 ymlaen), mae'r côr wedi ennill y Gystadleuaeth Gorawl i Bensiynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn er 2010.

\*\*\*\*\*

Clos Sophia oedd cartref S4C pan lansiwyd y sianel yn 1982, gydag Owen Edwards (1933–2010), un o gewri'r byd darlledu a ffigwr amlwg ym mywyd Cymraeg Caerdydd, wrth y llyw. Roedd creu'r sianel yn ddigwyddiad allweddol yn hanes y Gymraeg yn gyffredinol, wrth gwrs, ac yn ddatblygiad hynod bwysig yn hanes yr iaith yng Nghaerdydd yn benodol, oherwydd yr holl swyddi yn gysylltiedig â'r Gymraeg a grëwyd yn y ddinas. Ac roedd y rhaglen gyntaf a ddarlledwyd o Glos Sophia ar noson gyntaf y sianel, 1 Tachwedd 1982 – sef y cartŵn *SuperTed* (gydag un o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Cathays, y canwr Geraint Jarman, yn lleisio'r prif gymeriad) – yn rhagflas o'r ffordd y byddai Caerdydd yn datblygu'n ganolfan animeiddio ryngwladol o bwys.

\*\*\*\*\*

O Glos Sophia, yn hytrach na mynd yn syth yn ein blaen i Talbot Street, trown i'r chwith i mewn i Heol yr Eglwys Gadeiriol, un o strydoedd harddaf a mwyaf trawiadol ei phensaernïaeth yn y briffddinas.

Y troad cyntaf ar y dde yw Hamilton Street, y stryd fwyaf llengar ei chysylltiadau yng Nghaerdydd o bosibl. Treuliodd y llenor o'r Wladfa, Eluned Morgan (1870–1938), lawer o amser yng Nghaerdydd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ac yr oedd yn lletya yn 51 Hamilton Street pan gyhoeddwyd yr orau o'i chyfrolau taith, sef *Gwymon y Môr* (1909), perl o lyfr sy'n adrodd hanes mordaith o Gymru i'r Wladfa.

Yn 10 Hamilton Street, wedyn, yr oedd Saunders Lewis yn lletya yn 1921–22 pan gwblhaodd ei ddrama Gymraeg gyntaf, *Gwaed yr Uchelwyr* (a lwyfannwyd am y tro cyntaf yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ym mis Mai 1922) a phan ddechreuodd ysgrifennu un o'i ddramâu gorau, *Blodeuwedd*.



Eluned Morgan (1870–1938)

Mae'r bardd Grahame Davies yn byw yn Hamilton Street er 1997 – yn rhif 58 er 1999, ond yn rhif 18 pan gyhoeddodd y gyfrol *Adennill Tir* (1997) a enillodd iddo Wobr Harri Webb. Roedd hynny'n gyd-ddigwyddiad priodol iawn, gan i Harri Webb fyw yn 38 Hamilton Street am gyfnod ar ôl iddo ddychwelyd i Gymru yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.

Er ein bod yn meddwl yn arbennig am Harri Webb (1920–94) fel bardd a ysgrifennai yn

Saesneg, mae'n werth cofio mai ef a ysgrifennodd eiriau un o ganeuon Cymraeg mwyaf eiconig ail hanner yr ugeinfed ganrif, sef 'Colli laith'. Ond *ennill* yr iaith fu hanes y gantores a gysylltir yn annatod â'r gân, sef Heather Jones, a ddysgodd y Gymraeg pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Cathays. Cyfansoddwr yr alaw hudolus oedd Dr Meredydd Evans (1919–2015), a fu'n gweithio yng Nghaerdydd rhwng 1963 ac 1985 (yn Bennaeth Adran Adloniant Ysgafn y BBC hyd 1973 ac yna'n ddarlithydd yn y Brifysgol), a Merêd oedd y prif ysbrydolwr y tu ôl i ddechrau cyhoeddi'r *Dinesydd* yn 1973, papur bro cyntaf Cymru.

\*\*\*\*\*

Os awn ychydig o'r ffordd i lawr Heol yr Eglwys Gadeiriol ar ôl y troad i Hamilton Street, fe welwn ar y dde un o enghreifftiau pensaernïol mwyaf trawiadol yr ardal, sef 'Temple Court', synagog Iddewig yn wreiddiol ond sydd bellach wedi'i droi'n swyddfeydd. Un o'r rhai a osododd cerrig sylfaen yr adeilad yn 1896 oedd Godfrey Charles Morgan (1831–1913), Arglwydd Tredegar, un o arwyr y 'Charge of the Light Brigade' ym Mrwydr Balaclava yn ystod Rhyfel y Crimea. Ef a chwaraeodd ran Owain Glyndŵr yn y Pasiant Cenedlaethol lliwgar ac uchelgeisiol yn adrodd hanes Cymru a lwyfannwyd yng Ngerddi Sophia yn 1909, a thros 4,000 yn chwarae rhan ynddo. Mae cerflun o Arglwydd Tredegar ar gefn 'Sir Briggs', y ceffyl y bu'n ei farchogaeth ym Mrwydr Balaclava, i'w weld yng Ngerddi'r Orsedd o flaen Neuadd y Ddinas. Fe'i gwnaed gan y cerflunydd enwog, W. Goscombe John (1860–1952), a aned yn Nhreganna.

\*\*\*\*\*

Ychydig ddrysau i lawr o'r synagog mae 11 Heol yr Eglwys Gadeiriol. Ceir plac ar 95 Heol y Bont-faen i nodi mai dyna fan geni David Ivor Davies (1893–1951), neu 'Ivor Novello', y cerddor a'r actor a gyfansoddodd ganeuon mor hynod boblogaidd â '*Keep the home fires burning*' a '*We'll gather lilacs in the spring again*'. Ond nid oes dim ar 11 Heol yr Eglwys Gadeiriol i nodi mai yno y magwyd ef, gan i'r teulu symud

yno'n fuan wedi iddo gael ei eni – yn rhannol, mae'n debyg, er mwyn i'w fam gael tŷ digon o faint ar gyfer ei chasgliad sylweddol o bianos!

Er iddo ddod i enwogrwydd ym myd adloniant ysgafn Saesneg, roedd teulu Ivor Novello yn un amlwg yn y bywyd Cristnogol a cherddorol Cymreig, a bedyddiwyd Ivor yn blentyn yn Salem, capel Cymraeg y Methodistiaid Calфинаidd yn Nhreganna, lle roedd ei fam yn organyddes. Roedd cystadlu mewn eisteddfodau hefyd yn rhan o'i brentisiaeth gerddorol gynnar. Daeth ei fam, Clara Novello Davies ('Pencerddes Morgannwg'; 1861–1943), i amlygrwydd yng Nghymru ac yn rhyngwladol fel arweinydd corau merched a hyfforddwraig canu.

\*\*\*\*\*

Ar waelod Heol yr Eglwys Gadeiriol, trown i'r chwith i mewn i Heol y Bont-faen ger y 'City Church', eglwys sydd yn perthyn i'r 'Elim Pentecostal Church', enwad a sefydlwyd yn sgil Diwygiad 1904–05 gan George Jeffreys (a fagwyd ymhlith yr Annibynwyr yn ardal Maesteg) ac enwad sydd erbyn hyn ag aelodaeth o gannoedd o filoedd yn fyd-eang.

\*\*\*\*\*

Ar ben draw'r heol mae Pont Caerdydd yn mynd â ni yn ôl dros afon Taf i gyffiniau gorllewinol y castell. Ymhen ychydig, gwelwn ar y dde Barc yr Arfau, sy'n cymryd ei enw oddi wrth y 'Cardiff Arms Hotel' a arferai sefyll ar ran o safle presennol Gwesty'r Angel. Mae Parc yr Arfau ar dir a enillwyd pan sythwyd cwrs afon Taf yn y 19eg ganrif, oherwydd cyn hynny dilynai'r afon gwrs a redai'n fras i lawr yr Heol y Porth (*Westgate Street*) bresennol.

Mae'r gatiau sy'n arwain i mewn i'r parc ger Gwesty'r Angel er cof am Erith Gwyn Nicholls (1874–1939), capten tîm rygbi Cymru pan enillasant eu buddugoliaeth enwog yn erbyn y Crysau Duon ar Barc yr Arfau yn 1905. Canwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau' cyn yr ornest honno, yn ymateb i berfformiad tîm Seland Newydd o'r *haka*, gan ddechrau'r arfer o ganu'r anthem

genedlaethol o flaen gemau rhyngwladol.

\*\*\*\*\*

Wrth gerdded ar hyd Heol y Castell heibio i Westy'r Angel i gyfeiriad prif fynedfa'r castell, fe ddown at y troad i Stryd Womanby (a adwaenir hefyd wrth yr enw Heol y Fuwch Goch). Dyma un o strydoedd hynaf Caerdydd, a arweiniai'n wreiddiol o'r castell i lawr at y cei ar lan afon Taf lle y saif maes parcio aml-lawr Heol y Porth erbyn hyn. Y ffurf gynharaf sydd wedi'i chofnodi ar yr enw yw 'Hundemanby', sydd o bosibl yn enw Sgandinafaidd yn golygu 'cartref yr heliwr' neu 'cartref meist'r y cŵn'.

Wrth ichi droi i mewn i Stryd Womanby, mae plac ar siop Nisa ar y gornel dde sy'n nodi mai dyna lle y dechreuodd darlledu yng Nghymru ar 13 Chwefror 1923. Hon oedd gorsaf gyntaf y BBC yng Nghymru, ac ar Wyl Ddewi 1923 darlledwyd oddi yno eiriau Cymraeg am y tro cyntaf, sef dyfyniad o gerdd gan y bardd a'r gweinidog Annibynnol, William Ambrose ('Emrys'; 1813–73): 'Segurdod yw clod y cledd/ A rhwd yw ei anrhydedd.'

Gwesty'r 'Globe', un o dafarndai hynaf Caerdydd, oedd ar y gornel chwith wrth ichi droi i mewn i Stryd Womanby, lle y mae 'Elevens Bar and Grill' erbyn hyn. Dyna'r 'hen Gronnell', man cyfarfod cylch o feirdd o Gaerdydd a'r cyffiniau yn ail hanner y ddeunawfed ganrif, ac yn eu plith laco Twrbil y gwëydd, Ioan Dafydd y bragwr, Joseph Jones y gof hoelion ac lolo Morganwg.

Yn Stryd Womanby y mae Clwb Ifor Bach, ffrwyth ymgyrch gan Owen John Thomas (y cyn-Aelod Cynulliad) ac eraill i sefydlu clwb cymdeithasol Cymraeg yng Nghaerdydd. Agorwyd y clwb yn 1983, ac erbyn hyn mae'n rhan amlwg o fywyd cerddorol y ddinas.

Enwyd y clwb ar ôl Ifor Bach, Arglwydd Senghennydd, a ymosododd yn llwyddiannus ar Gastell Caerdydd ym mherfeddion nos yn 1158, gan gadw William FitzRobert, Iarlly Caerloyw ac Arglwydd Caerdydd a Morgannwg, a'i deulu'n wystlon

nes iddo gael yn ôl diroedd a oedd wedi'u lladrata oddi wrtho.

\*\*\*\*\*

A dyma ni wedi cyrraedd yn ôl wrth brif fynedfa Castell Caerdydd. Gormesu'r brodorion oedd diben gwreiddiol y castell, ond wrth inni derfynu'n taith, mae'n werth nodi i'r Gymraeg dderbyn parch o fewn muriau'r castell mewn cyfnodau diweddarach.

Yn 1551 gwnaed William Herbert yn Farwn Caerdydd. Roedd hwnnw'n ddyn dylanwadol iawn yn y llys Tuduraidd, yn frawd -yng-nghyfraith i Harri VIII, ond yn un eithaf afrwydd ei Saesneg, ac fe'i canmolwyd gan y gramadegwr, Gruffydd Robert o Filan, a'r bardd Wiliam Llŷn am ei gariad at y Gymraeg a'i barodrwydd i'w siarad yn ddi-lol o flaen pobl bwysicaf y deyrnas. Dan yr Herbertiaid daeth Castell Caerdydd yn gyrchfan i ddyneiddwyr Cymraeg megis Wiliam Middleton a Siôn Dafydd Rhys, ac i feirdd fel Lewys Dwnn a ysgrifennodd gywydd moliant i Gaerdydd sy'n dechrau 'Y gaer fawr a gara' fi' ac sy'n galw'r dref yn 'Llundain y Cymry llawndeg,/ Lle iachus dyn, lloches deg.' Ac yn y 19eg ganrif, wedyn, bu aelodau o deulu Bute yn gynnes eu cefnogaeth i'r Gymraeg a'i diwylliant.

\*\*\*\*\*

Mae llawer rhagor i'w ddweud am y Gymraeg yn y rhan orllewinol hon o ganol Caerdydd y buom yn crwydro ar hyd-ddi – a gellid llunio teithiau cyffelyb am y cysylltiadau Cymraeg lluosog sydd gan yr ardaloedd eraill o fewn yr hen dref gaerog a'i chyffiniau agos (efallai y daw cyfle i wneud hynny rywdro arall!) – ond gobeithio y dywedwyd digon i ddangos fod i'r Gymraeg hanes hir, amrywiol a chyfoethog yn ein prifddinas.

---

Comisiwn gan Gymrodorion Caerdydd, cymdeithas Gymraeg hynaf y ddinas, yw'r daith hon, a diolchwn i'r Cymrodorion am ei nawdd i'w chyhoeddi'n atodiad yn y rhifyn arbennig o'r *Dinesydd* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Diolch hefyd i Dr Dylan Foster Evans am ddarllen drafft o'r testun ac am ei sylwadau.